## CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

### Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Dachwedd 4edd 2025 yn Neuadd Rhydlewis

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng. Sharon Thomas (Cadeirydd) | Cyng. Llyr Evans |
| | Cyng. Ceri Jones | Cyng. Sian Williams |
| | Cyng. Emyr Jones | Cyng. Mark Davies |
| | Cyng. Maldwyn Lewis | |
| | Cyng. Osian Davies (ar-lein) | |
| **Clerc** | Helen Horscroft | |

**1 . Ymddiheuriadau**

Cyng. Rob Jones, Cyng. Carol Davies, Cyng. Teifi Evans

Cyng. Mark Davies wedi gorfod gadel y cyfarfod i ddelio gyda argyfwng.

**2. Datgan Diddordeb**

**Cynllunio rhif : A250775**

Cyng. Ceri Jones yn gweithio da Delme Evans ambell waith.

**Prynu Coed Nadolig**

Teulu Cyng. Sharon Thomas yn gwerthu coed nadolig.

**3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

3.1 **-** Derbyniodd pawb gopi o gofnodion mis Hydref a chynigodd Cyng. Ceri Jones eu bod yn gywir, ac eiliwyd gan Cyng. Maldwyn Lewis.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1 –** Prisiau domain Lesley Parker yn cael ei rhannu ymhlith y cynghorwyr. I Mae 'H' o gwmni BCCIT yn dod i gyfarfod nesa i drafod gwybodaeth a rhannu prisiau domain ayb.

**4.2** Sian i rannu'r 'toolkit' yn y flwyddyn newydd.

**4.3** Mae ishe cadarnhad o ganlyniad Awdit Cymru leni. Helen i gwrso lan.

**5. Cyrsiau**

**5.1** Helen i neud cyrsiau ar unwaith yn enwedig 'data protection' a 'code of conduct'.

5.2 Helen i holi'r Banc am ffurflenni papur i newid y Mandat.

5.3 De-Ffib neuadd Ffostrasol i w drafod yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

**6. Materion y Cynghorydd Sir**

**Dim**

**7. Cynllunio A250775 Edwards & Evans**

7.1 Ishe dilyn canllawiau a polisi'r Sir.

**8. Gohebiaeth**

8.1 One Voice Wales -Section 6 Report OnLine Workshops/Un Llais Cymru- Gweithdai Adroddiadau Adran 6 Ar-Lein.

8.2 Wendy Patience -Cofnodion Drafft Pwyllgor Ardal Ceredigion/ Draft minutes Ceredigion Area Committee 29.09.25

8.3 Un Llais Cymru- Joint One Voice Wales/SLCC Event- Wednesday 12th November . How to register an account on the SLCC Website (Society of Local Council Clerks).

8.4 Cyngor Sir – Democratiaeth – cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned, Nos Fercher, Tachwedd 26ed, (Ardal y De yn Ysgol Bro Teifi). Danfon hyd at 2 cynrychiolydd – rhoi gwbod i Dana Jones erbyn Tachwedd 14, 2025.

8.5 Cais Cynllunio A250775 – Land opp Ardwyn, Croeslan, SA44 4SU

8.6 Un Llais Cymru – e-bwletin rhif 11.

8.7 Un Llais Cymru – dyddiadau hyfforddiant Hydref-Rhagfyr 2025.

8.8 Ambiwlans Awur Cymru – Apel Cyngor Cyunedol 2025 – danfon gais am grant nol.

8.9 Anwen McConechie CC – 'Llunio Dyfodol ein Heconomi lleol/Shaping the future of our local economy- dyddiadauar gyfer sesiynau.

8.10 Carers and community support – calendr digwyddiadau Tachwedd.

8.11 Un Llais Cymru – Welsh Government – Consultation on the changes to Local Government election rules in Wales /Ymgynhoriad ar y newidiadau i reolau etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru.

**9. Cyllid**

9.1 Cyng. Maldwyn Lewis a Cyng. Emyr Jones yn arwyddo 3 siec , £270.54 Clerc, £67.60 HMRC a £250 i Gronfa Guto Harries.

**10. Nadolig**

10.1 Ishe trefnu ble ma'r coed yn dod o?

10.2 Pryd mae'r coed yn mynd lan?

10.3 Pryd ma cinio nadolig leni?

10.4 ishe holi Teifi Thomas, Croeslan am 7 coeden.

10.5 Angen rhoi'r coed i fyny efallai penwythnos 30 Tachwedd. Pawb i gysylltu trw'r What's App i drefnu dyddiad a amser iawn.

10.6 Bydd canu carolau rownd y coed ar Nos Sul 7fed Rhagfyr. Bydd angen posteri, cerddoriaeth, gwin poeth, losin i'r plant ayb.

10.7 Costiau'r noson i ddod allan o goffre'r Cyngor.

10.8 Bydd angen i bawb weld a ydy'r goleuadau i gyd yn gweitho cyn y noson.  Ceri i archebu 3 set ychwanegol o oleuadau.

10.9 Geith cinio nadolig leni i gynnal yn y flwyddyn newydd – i'w trafod yng nghyfarod mis Ionawr.

**11. De-Ffib Ffostrasol**

11.1 – I'w drafod ym mis Ionawr.

**12. Materion Ardal**

**12.1 -** Geith hwn ei drafod yng nghyfarfod mis Tachwedd pan fydd y Cyng. Mark Davies yn bresennol.

**13. Materion Ardal**

**Rhydlewis:**

13.1 Ma lot o ddwr yb dod lawr rhiw Blaenwern – Helen i roi e ar CLIC.

13.2 Ma ffens plastig dal lan ar bwys Rhydypentref SA44 5RH, 4 mlynedd ar ol llifogydd.

13.3 Hewl drw'r pentre dal ar gau , gwaith y n dod i ben wthnos ma.

13.4 Ma gwaith clirio coed Hawen Hall yn mynd yn ei flaen gan Lampeter Tree Services.

13.5 Hewl Brithdir i Llwyneos ar gau o hyd am flwyddyn.

**Penrhiwpal:**

13.6 Ma ishe torri coed o amgylch y lamp sy ar y sgwar.

**Coedybryn:**

13.7 Ma coed Bro Gernos yn tyfu drosto – ishe rhoi e ar CLIC.

13.8 Mae Julie Davies, Glynrhodyn wedi cal llawdriniaeth yn ddiweddar.

13.9 Clwb cinio Coedybryn wedi codi dros £1000 i'r Ambiwlans Awyr.

**Brongest:**

13.10 Ma dwr tu allan i dy Llyr Evans yn cal ei neud.

13.11 Dwr yn uchel iawn yn Ffynnon Fair.

13.12 Mae Sioe CNE wedi rhoi diolch ir Cyngor am y cyfraniad leni.

13.13 CFfI Troedyraur wedi neud yn yr Eisteddfod Sir. Cyngerdd or pigion nos Lun, 10fed Tachwedd 7 or gloch yn neuadd Ffostrasol.

13.14 Ma pobol yn parco ar waelod Brongest , sy'n profi i fod yn ffwdanus.

13.15 Mae’r fainc ar bwys Ael y Bryn ar eglwys yn cael llawer o ddefnydd.

**Croeslan:**

13.16 Mae’r ffens wedi mynd or fflat ar y sgwar.

13.17 Mae menyw wedi bod yn achwyn am blant sy’n cnocio ar ei drws a rhedeg bant. Mae’n debyg fod difrod wedi cael ei neud i’w char hefyd. Sneb yn y pentref wedi clywed dim.


13.18 Daeth CFfI Pontsian yn 3ydd yn y ‘Steddfod sir.

13.19 Pob lwc i Elain a Elin CFfI Troedyraur sy’n canu deuawd yn steddfod Cymru.

**14. Cyfarfod nesaf**

14.1 - Cynhelir cyfarfod nesaf yn Neuadd Ffostrasol , nos Fawrth 2ail Rhagfyr 2025 am 7.30yh.

Cytunwyd fod y cofnodion yma’n gywir.



02.12.2025

-------------------------------------------------------- --------------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) Dyddiad